**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 17 Medi 2020 am 10.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| R Francis-Davies | D H Hopkins | A S Lewis |
| C E Lloyd | S Pritchard | A Pugh |
| J A Raynor | A H Stevens | M Thomas |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr):

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr):

---

## 234. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr E J King gysylltiad personol â Chofnod 241 "Adolygiad Cydraddoldeb Blynyddol 2019/2020".

## 235. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf, 2020.

## 236. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

**1) Pandemig COVID-19**

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y cyfyngiadau symud diweddar o ganlyniad i bandemig COVID-19 yng Nghaerffili a Rhondda Cynon Taf a’r cynnydd yn nifer yr achosion ym Merthyr Tudful a Chasnewydd. Anogodd bawb i ddilyn y rheolau, gwisgo gorchuddion wyneb yn ôl yr angen ac i gadw pellter cymdeithasol.

**237. Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**238. Hawl i holi cynghorwyr.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**239. Goblygiadau a pharatoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd yn ysgolion Abertawe**

Cyflwynodd y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau adroddiad a oedd yn gofyn am ystyried y goblygiadau a'r paratoadau a wnaed ar gyfer y cwricwlwm newydd yng Nghymru.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Bydd Abertawe yn nodi ac yn adolygu ei hanghenion cefnogaeth ysgolion yn barhaus wrth i'r cwricwlwm newydd esblygu. Bydd yn darparu gwybodaeth, cymorth a dylanwad drwy wahanol ddulliau, gan gynnwys partneriaethau rhanbarthol, lle y bo'n briodol.

2) Datblygir Cymuned Ddysgu Broffesiynol (CDdB) ymhellach ar draws Abertawe i rannu arfer, syniadau a dysgu effeithiol. Bydd y CDdB yn parhau i fanteisio ar gyfleoedd i weithio gyda phartneriaid allanol, fel y bo'n briodol, gan gynnwys y ddwy Brifysgol.

3) Mae ysgolion a swyddogion Abertawe yn cynnal dulliau i rannu arfer da yn systematig ar-lein drwy gynnal llwyfannau sy'n bodoli eisoes ac adeiladu arnynt.

4) Datblygir dangosyddion ystyrlon ar gyfer cynnydd a chyflawniad disgyblion yn lleol ac ar y cyd â Llywodraeth Cymru.

5) Cynhelir systemau cymedroli cadarn, yn seiliedig ar fodel y clwstwr, i sicrhau cysondeb arfer asesu ar draws Abertawe i gefnogi asesiadau trylwyr a dibynadwy gan athrawon.

6) Cefnogir gallu arweinyddiaeth ysgolion, ar bob lefel, i ddiwygio'r cwricwlwm, gan gynnwys partneriaeth â'r Academi Genedlaethol, lle y bo'n briodol.

7) Sicrhau'r sgiliau gweithlu sydd eu hangen i gyflwyno'r cwricwlwm newydd drwy gynnal systemau i nodi a diwallu anghenion datblygiad proffesiynol parhaus pob ymarferydd ysgol.

8) Sicrhau bod dysgu sgiliau ar gyfer galwedigaethau presennol ac yn y dyfodol wedi'i wreiddio i'r cwricwlwm yn holl ysgolion Abertawe mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Sgiliau Abertawe (PSA).

9) Bydd arweiniad Abertawe ar gyfer rhoi'r cwricwlwm ar waith yn symud i gamau cynllunio 3 a 4 yn dilyn y cerrig milltir llwyddiannus a gyrhaeddwyd yng nghamau 1 a 2 (Atodiad A i'r adroddiad).

## 240. Monitro Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2019/20.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad adroddiad a oedd yn amlinellu'r perfformiad corfforaethol ar gyfer 2019-2020.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi ac adolygu'r canlyniadau perfformiad i helpu i gyfeirio penderfyniadau gweithredol ynglŷn â dyrannu adnoddau a, lle bo'n berthnasol, gamau gweithredu cywirol i reoli a gwella perfformiad ac effeithlonrwydd wrth gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

## 241. Adolygiad Cydraddoldeb Blynyddol 2019/20.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gymunedau Gwell adroddiad a oedd yn gofyn am gyhoeddi Adolygiad Cydraddoldeb Blynyddol y cyngor ar gyfer 2019-2020 yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r rheoliadau adrodd ar gyfer Cymru.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo cynnwys yr adroddiad i'w gyhoeddi.

## 242. Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy 2020-2021.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i dderbyn grant 100% gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau penodedig gwerth cyfanswm o £135,000 yn unol â Rheol Gweithdrefn Ariannol 5.7.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r cais i dderbyn grant 100% o £135,000 gan Lywodraeth Cymru i alluogi'r prosiectau i gael eu datblygu a'u cyflawni yn ystod 2020-2021.

## 243. Cronfa Gyfalaf Economi Gylchol Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn 2020-21 - Cynnig ar gyfer Cefnogaeth Cyfalaf i sefydlu Canolfan Ailddefnyddio ac Ailgylchu Pren.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd ac Isadeiledd adroddiad a oedd yn manylu ar Gylchlythyr Cronfa Buddsoddi Cyfalaf yr Economi Gylchol:

Blwyddyn Ariannol 2020-2021 Llywodraeth Cymru i gefnogi sefydlu Canolfan Ailddefnyddio ac Ailgylchu Pren.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r cais i dderbyn unrhyw gynnig grant ar ôl cyflwyno cais am gyllid i Gronfa Buddsoddi Cyfalaf yr Economi Gylchol, Llywodraeth Cymru: Blwyddyn Ariannol 2020-21, i gefnogi sefydlu Canolfan Ailddefnyddio ac Ailgylchu Pren.

## 244. Cyllideb Gymunedol Cynghorwyr - Chwarae.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer yr £1m ychwanegol i Gyllidebau Cymunedol y Cynghorwyr ac i gydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol ("Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf) – i neilltuo ac awdurdodi cynlluniau i'r Rhaglen Gyfalaf neu gynnwys cynlluniau newydd yn y Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd:**

1) Y dylid cymeradwyo ychwanegu £1m o arian cyfalaf at Gyllideb Gymunedol y Cynghorwyr.

## 245. FPR7 - Cyfle i Ddatblygu Fferm Ffotofoltäig Solar.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gartrefi, Ynni a Thrawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i'r buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen i ddatblygu fferm Solar PV 3MW sydd wedi'i gosod ar y ddaear a manteision ymagwedd o'r fath.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r prosiect a'i oblygiadau ariannol, a'i ychwanegu at y rhaglen gyfalaf.

2) Cymeradwyo cwmpas y prosiect i alluogi swyddogion i gychwyn trafodaethau manwl ac awdurdodi'r Cyfarwyddwr Lleoedd i gytuno ar delerau terfynol y cytundebau trydydd parti, fel y'u hystyrir yn briodol, yn unol â'r argymhellion hyn.

3) Awdurdodi'r Prif Swyddog Cyfreithiol i baratoi unrhyw ddogfennau cyfreithiol sydd eu hangen i gwblhau'r cytundeb a pharatoi'r ddogfennaeth ar ran y cyngor.

## 246. Gwahardd y cyhoedd: -

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan

Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**247. FPR7 - Cyfle i Ddatblygu Fferm Ffotofoltäig Solar.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gartrefi, Ynni a Thrawsnewid Gwasanaethau adroddiad gwybodaeth a oedd yn manylu ar y buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen i ddatblygu fferm Solar PV 3MW sydd wedi'i gosod ar y ddaear a manteision ymagwedd o'r fath.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.45 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | (Add Welsh Month) |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, ??? |
| Penderfyniad yn dod i rym: | |